

DOLIAU PERSONA



BETH YW DOLIAU PERSONA?



<https://www.youtube.com/watch?v=AfJBZZ2-9Qs>

Sut mae defnyddio doliau persona?

Archwilio **emosiwn** gyda doliau persona



Doliau Persona- gosod nodau

- Rwy'n dda am

Rwy'n hoffi



Gosod nodau/pennu amcanion

Pasiwch Ddol Persona o gwmpas y cylch.

Hoffai (enw'r ddol) ddysgu rhywbeth newydd heddiw.

Dyma ei hamcan dysgu.



Hoffai ddysgu tynnu llun o dŷ. Nid yw'n gallu tynnu llun o sgwariau'n dda iawn eto.

Allwch chi ei helpu hi i ddysgu gwneud hynny? Beth dylai hi ei wneud?

(Gall y plant ddangos iddi ar y bwrdd gwyn)

A oes unrhyw beth yr hoffech chi iddi allu gwneud yn well?

Dewch â'r Ddol Persona yn ôl i'r grŵp ar ôl cyflawni'r nod – tynnu llun tŷ.

Trafodwch yr hyn y bydd y plant eraill wedi'i gyflawni o bosibl.

Archwilio teimladau

Dewiswch amrywiaeth o gardiau gwahanol eu pryd a'u gwedd a'u gwasgaru ar y llawr i'r grŵp gael edrych arnynt a'u trafod. Bydd y plant yn dewis wyneb a allai weddu i senario byr megis:

- a. Teimla'r person hwn fod pobl yn ei garu ac yn gofalu amdano.
- b. Mae'r person hwn wedi colli ei hoff beth.
- c. Mae'r person hwn newydd gael hufen iâ.
- d. Nid oes gan y person hwn neb i chwarae ag ef.
- e. Mae'r person hwn newydd fynd i drwbl.



Yna, gofynnir y cwestiynau:

Sut yr ydych chi'n gwybod hynny?


Sut y bydddech chi'n teimlo?

Beth sy'n eich gwneud chi'n
hapus/trist/unig/dig/ofnus?



- Pasiwch Ddol Persona o gwmpas y cylch.
Mae'r oedolion yn dewis un o'r teimladau ac yn dweud wrth y plant fod (enw'r ddol) _____ yn teimlo'n drist/dig/hapus/pryderus/cyffrous/yn cael loes pan

Y plant yn awgrymu rhesymau
posibl dros hyn.



Teimlo'n unig

- Pasiwch Ddol Persona Doll o gwmpas y cylch.
Mae (enw'r ddol) wedi dod i'n gweld ni heddiw am ei f/bod ef/hi
am ddweud wrthyh chi ei f/bod y teimlo braidd yn unig oherwydd:

Bod ffrind wedi mynd ar ei wyliau/i ysgol fawr

Bod Mam a Dad wedi mynd i Hajj a'i f/bod yn aros yn nhŷ Mam-gu

Ei f/bod wedi colli ei hoff dedi

Bod ei gath/chath wedi rhedeg i ffwrdd

Beth allai wneud iddo/iddi deimlo'n well?

Wedyn gofynnir i'r plant:
Ydych chi erioed wedi teimlo'n unig?

Beth wnaethoch chi?



Beth yw eich barn chi? Beth ddylai.... wneud?

Pasiwch Ddol Persona o gwmpas y cylch .

Geiriau allweddol: yn bwrpasol; ar ddamwain; trist; hapus; dig; wedi cynhyrfu

Mae (enw'r ddol) mor hoff o'i meithrinfa nes ei bod hi ar bigau'r drain yn awchu cyrraedd yno.

Wrth iddi gerdded trwy'r drws roedd ar gymaint o frys nes iddi wthio heibio i fachgen a'i fwrw i'r llawr. Dechreuodd lefain ond ni sylwodd arno a pharhau i wthio pobl o'i ffordd.

Wedyn gofynnir i'r plant:

Yn eich barn chi, beth dylai wedi'i wneud?

Beth y mae angen iddi ddysgu, ac yr ydych chi'n ei wybod eisoes?

Doliau persona yn cael eu defnyddio

- <https://www.youtube.com/watch?v=WiZP3lsgNec>

Doliau Persona ac Addysg Grefyddol

A ydych yn gallu meddwl
am ffyrdd o ddefnyddio
doliau persona mewn AG?



RHAI SYNIADAU DOLIAU PERSONA ...AG

- Gall doliau Persona helpu plant i ddeall a chydymdeimlo â gwahanol ddiwylliannau a chrefyddau.
- Os nad oes ond ychydig aelod neu'r un aelod o gymuned ffydd gall y doliau Persona ymweld i esbonio am ei chefnidir ffydd.
- Gadewch i'r ddol Persona ymweld â'r lleoliad fel ffrind newydd a sôn am ei hoff fwyd, anifail anwes ac ati ar gyfer ychydig o ymweliadau cyn cyflwyno'r agweddau ar y ffydd yr hoffech ddysgu'r plant amdanynt.

RHAI SYNIADAU DOLIAU PERSONA ...AG

- Wedyn gallai'r ddol Persona ymweld gyda stori neu lyfr stori i'w rannu.
- Gallai'r ddol Persona ymweld gydag arteffact i'w drafod.
- Gallai'r ddol Persona ymweld mewn gwisg draddodiadol.
- Gallai'r ddol Persona ddod â bwyd arbennig i'w rannu.
- Gallai'r ddol Persona esbonio gŵyl arbennig.
- Os oes rhieni/gofalwyr o'r ffydd honno a lle bo'n bosibl y gymuned ffydd leol gellir gofyn iddynt gyfrannu syniadau neu fenthycâ adnoddau, arteffactau i'r ddol Persona gael dod â hwy i'r lleoliad.
- Byddant o gymorth er enghraifft, wrth esbonio'r modd y defnyddir yr arteffactau hyn a sut y dylid ynganu enw, os yw'r ymarferwr yn ansicr.

Cyfarfu'r plant â Sunita a dysgu ei bod hi'n Fwslim.

Deallant ei bod hi'n gwisgo Bwrca am ei bod yn hoffi gorchuddio'i chorff. Esbonia Asha fod Mwslimiaid yn gweddïo ar eu Duw a dyma hi'n dangos Sunita wrthi'n gweddïo.



Dysgodd y plant fod Sunita yn darllen o lyfr arbennig o'r enw'r Cwran.



Meddai Jordyn: 'Rwy wedi gweld Mwslimiaid yn gweddïo ar y teledu, dyna sut maen nhw'n gweddïo' (wedyn mae hi'n dangos sut).



Pan ofynnwyd beth oedd crefydd Lauren is, cododd Ethan ei law yn syth a chofio 'Mae hi'n Gristion!'



Mae'r plant yn deall, er bod Lauren a Sunita'n credu pethau gwahanol, eu bod yn cytuno'n dda o hyd ac yn ffrindiau da.



Yn ogystal â dysgu am grefydd gan y doliau
persona, mae'r plant hefyd wedi dysgu
o grefydd i gydnabod bod Lauren yn Gristion,
ond ei bod hi'n debyg i unrhyw blentyn arall
yn ein hysgol ni.

Mae'r plant yn ei thrin fel aelod o'n dosbarth
ni ac yn mwynhau ei chynnwys wrth iddynt
ddysgu.



Mae Phoebe a Skye yn chwarae ysgolion.

Hwn yw diwrnod cyntaf Lauren yn yr ysgol ac mae'n teimlo braidd yn swil – felly mae Skye yn gofalu amdani ac yn ei helpu i setlo.



Yma mae Rafay a Max yn darllen stori i Lauren.

Mae Rafay yn dangos y lluniau i Lauren ac mae Max yn esbonio'r hyn sy'n digwydd ynddynt.



Mae Skye yn dal cardiau geiriau.

Mae Brodie a Skye yn synio'r llythrennau ac yn esbonio i Lauren beth mae'r geiriau yn ei ddweud.




Dyfyniad gan Brodie —

‘Mae Lauren yn Gristion ac mae’n credu yn Nuw. Mae hi’n mynd i’r Eglwys fel ffrind i mi. Mae fy ffrind yn hoffi mynd i’r Eglwys am eich bod chi’n canu caneuon yno.’



TASG GRWP: Dewiswch grefydd ac ystyriwch sut y bydddech yn defnyddio dol persona i'ch helpu i addysgu a dysgu am un o'r crefyddau hyn.





Archebu Doliau Persona

- Parrotfish Company

www.parrotfish.co.uk

- Bright and Early Catalogue

www.articlesoffaith.co.uk

- Persona Doll Training



www.Persona-doll-training.org

I ddarganfod mwy.....

The Little Book of Persona Dolls – Marilyn Bowles
Featherstone Education
ISBN: 1-904187-86-2

Celebrating Diversity DVD and book-Persona Doll training
www.Persona-doll-training.org

Persona Dolls in Religious Education – Shane Vickery
www.retoday.org.uk



Cyfeirnodau defnyddiol

Articles of faith <https://www.articlesoffaith.co.uk/>

The persona dolls approach <http://personadoll.uk/the-persona-doll-approach>

Story telling and persona dolls https://www.teachingforchange.org/wp-content/uploads/2012/08/ec_personadolls_english.pdf

Using persona dolls in religious education
<https://www.gloucester.anglican.org/wp-content/uploads/2017/08/An-introduction-to-using-persona-dolls.pdf>